

Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council
Cyfarfod Misol / Monthly Meeting
Nos Lun 21ain Gorffennaf / Monday, 21st July 2025
Festri Tabernacle Festry, Pencader
8.00 y.h. / p.m.

Presennol / Present: M. Griffiths, A. Davies, A. James, W. Cole, D. Griffiths, D. Davies, V. Davies, County Councillor L. Evans, Anita Evans (Clerc/Clerk).

Ymddiheuriadau / Apologies: J. Jones, R. Thomas, H. Lewis, G. Jones.

Absennol / Absent: -- neb/none

<p>1. Croeso: Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau.</p>	<p>1. Welcome: Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted.</p>
<p>2. Datgan diddordeb: M. Griffiths, L. Evans, A. Evans (Clerc) - Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth 267(14b)</p>	<p>2. Declaration of interest: M. Griffiths, L. Evans, A. Evans (Clerc) - Llanfihangel-ar-arth Eisteddfod 267(14b)</p>
<p>3. Adroddiad yr Heddlu – dim swyddog yn bresennol/dim data misol</p>	<p>3. Report from Police - no officer present/no monthly data.</p>
<p>4. Cofnodion Mis Mehefin (16.06.2025) - derbyniwyd fel cofnod cywir; cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan A. James.</p> <p>Cofnodion Is-bwyllgor Cyllid (09.07.2025) - derbyniwyd fel cofnod cywir; cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan A. James.</p>	<p>4. Minutes of June Meeting (16.06.2025) – accepted as a true record; proposed by A. Davies, seconded by A. James.</p> <p>Minutes of Finance Sub-Committee (09.07.2025) - accepted as a true record; proposed by A. Davies, seconded by A. James.</p>
<p>5. Materion yn Codi:</p> <p>(i) <u>Cynqor Sir Gâr</u> - Adran Briffyrdd – dim i’w adrodd.</p> <p>(ii) <u>Cyfleusterau Pencader ac Alltwalis:</u> cynhaliwyd cyfarfod ar 16.07.2025 i gyfweithio a phenodi Gofalwr/Glanhauwr ar gyfer y ddau safle. Penodwyd dau berson, un ar gyfer pob safle. Gwneir trefniadau iddynt dderbyn hyfforddiant gan y Cyngor Sir. Nodwyd bod y Cadeirydd a’r Clerc erbyn hyn wedi llofnodi’r les ar gyfer y ddau safle. Gofynwyd i’r Clerc gysylltu gyda chwmni Yswiriant Zurich i ychwanegu’r ddau safle at bolisi yswiriant y Cyngor Cymuned.</p> <p>(iii) <u>Data wrth gefn:</u> bydd y Cadeirydd yn cysylltu gyda Lesley Parker, Solutions Factory, ynglyn â nifer o faterion, ac yn trefnu iddi gyfarfod gyda’r Cyngor ar ddyddiad cyfleus ym mis Medi neu fis Hydref.</p> <p>(iv) <u>Mynwent y Plwyf, Pencader:</u> cais wedi ei dderbyn ar i berchen bedd symud slabiau hir concrit rhwng y bedd drws nesaf er mwyn ei gwneud yn haws i lanhau o gwmpas eu bedd hwy. Bydd rhaid esbonio taw cyfrifoldeb teuluoedd ydy edrych ar ôl y beddau, gyda’r Cyngor yn gofalu am y Fynwent fel safle gyfan. Mae graffiti wedi ei ganfod ar y sedd tu allan i’r bloc toiledau.</p> <p>(v) <u>Diffibrilwyr:</u> mae Adrian Munday wedi anfon y data diweddaraf. Disgwylia’r Cyngor am dri phris i osod llawr concrit i ddiffribilydd newydd yn Nolgran.</p> <p>(vi) <u>Amseroedd dechrau cyfarfodydd misol:</u> codwyd y mater hwn yng nghyfarfod Mis Mehefin. Y dilyn</p>	<p>5. Matters Arising:</p> <p>(i) <u>Carmarthenshire County Council</u> - Highways Department - no reports.</p> <p>(ii) <u>Pencader and Alltwalis Conveniences:</u> the Council met on 16.07.2025 to interview and appoint a Caretaker/Cleaner for both sites. Two persons were appointed, one for each site. Arrangements will now be made for training to be provided by Carmarthenshire County Council. It was noted that the Chairman and Clerk have now signed the leases for both premises. The Clerk will now contact Zurich insurance to add the asset transfer to the Council’s insurance policy.</p> <p>(iii) <u>Data back-up:</u> the Chairman will contact Lesley Parker, Solutions Factory, to discuss a number of issues requiring attention and will arrange a meeting with the Community Council at a convenient date in either September or October.</p> <p>(iv) <u>Parish Cemetery, Pencader:</u> request received to remove slabs between two graves to make it easier to clean around the grave. Clerk will explain that it is the responsibility of families to care for graves, while the Council takes care of the Cemetery as a whole site. Graffiti has also been found on the seat located outside the toilet block.</p> <p>(v) <u>Defibrillators:</u> Adrian Munday has provided the latest data. The Council awaits for three quotes to place a concrete slab for a new defibrillator at Dolgran.</p> <p>(vi) <u>Monthly meeting commencement time:</u> this matter was raised at the last monthly meeting. Following</p>

<p>trafodaeth, cynigiodd A. Davies ein bod yn dechrau pob cyfarfod ar draws y flwyddyn am 7.30 y.h.(yn wahanol i'r drefn bresennol o ddechrau am 8.00 ym misoedd yr haf). Eiliwyd gan D. Daviesa chytunwyd gan bawb.</p> <p>(vii) <u>Cyfeiriadau gwefan ac e-bost y Cyngor</u>: cytunwyd i ail-edrych ar y mater hwn ymhen chwe mis yng nghyfarfod Mis Ionawr 2026.</p> <p>(viii) <u>Cafnau blodau</u>: mae angen sylw ar goeden sydd yn gor-dyfu dros y cafn gyferbyn â Wilke's Head ym Mhontweli.</p> <p>(ix) <u>Archwilydd Mewnol</u>: cytunwyd i drafod ymhellach yng nghyfarfod Medi.</p> <p>(x) <u>Hysbysfyrddau</u>: nodwyd bod y mater yma wedi bod ar waith dros gyfnod hir, gyda rhai hysbysfyrddau ag angen mwy o sylw o ganlyniad. Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu â chwmni Ffenestri Roy Thomas yn Llanfihangel-ar-arth i gyflawni'r gwaith ar fyrder ac i adrodd 'nôl i'r cyfarfod nesaf.</p>	<p>discussion, A. Davies proposed that all future monthly meetings commence at 7.30 p.m. (as opposed to the current arrangement of commencing at 8.00 p.m. during the summer months). D. Davies seconded and all agreed.</p> <p>(vii) <u>Council's website and e-mail addresses</u>: it was decided to review in six months at the monthly meeting in January 2026.</p> <p>(viii) <u>Flower troughs</u>: an overhanging branch concealing the flower trough located opposite Wilke's Head, Pontwelly, requires attention.</p> <p>(ix) <u>Internal Auditor</u>: it was agreed to further discuss at the next monthly meeting in September.</p> <p>(x) <u>Noticeboards</u>: it was noted that this matter had been ongoing for an extensive period by now with some noticeboards requiring greater attention as a result. It was decided that the Clerk contact Roy Thomas Windows at Llanfihangel-ar-arth to undertake the work with urgency and report back to the next meeting.</p>
<p>6. Ariannol: Derbyniwyd y Fantolen Ariannol hyd at 30.06.2025 oddi wrth H. Lewis. Pasiwyd ei bod yn gywir. Cynigiwyd gan D. Griffiths, eiliwyd gan A. Davies. Cytunwyd talu'r anfonebau canlynol: Dyfed Alarms (£96.00); Clerc – costau teithio (23.05.2025 – 17.07.2025) = £62.91; Clerc – costau ffôn (14.05.2025 – 19.07.2025) = £19.60; Microsoft (£84.99). Cynnigiwyd gan V. Davies; eiliwyd gan D. Davies.</p>	<p>6. Financial: The balance sheet for 30.06.2025 was received from H. Lewis. It was passed as a true record; proposed by D. Griffiths, seconded by A. Davies. It was agreed for the following to be paid: Dyfed Alarms (£96.00); Clerc – travelling expenses (23.05.2025 – 17.07.2025 = £62.91); Clerc – telephone costs (14.05.2025 – 19.07.2025 = £19.60); Microsoft 365 (£84.99). Proposed by V. Davies; seconded by D. Davies.</p>
<p>7. Cynllunio: (wedi e-bostio i aelodau'r Is-Bwyllgor Cynllunio - dim gwrthwynebiad): (1) Skanda Vale (2) Hebron Villa (3) Dolgrogws (4) Teifi Sawmills (5) Llynddwr Uchaf Ni chymerodd y Cynghorydd Sir L. Evans unrhyw ran mewn trafodaethau cynllunio.</p>	<p>7. Planning Matters: (e-mailed to Planning Subcommittee Members - no objection): (1) Skanda Vale (2) Hebron Villa (3) Dolgrogws (4) Teifi Sawmills (5) Llynddwr Uchaf County Councillor L. Evans took no part in any planning discussions.</p>
<p>8. Swydd Clerc: Nodwyd ei bod yn fater o gonsŷrn nad oes llawer o ddiddordeb wedi ei ddangos yn y swydd, a hynny er ymestyn y dyddiad cau nifer o droeon. Cytunwyd i hysbysebu ymhellach yn Y Garthen, Clonc a'r Gambo, gyda dyddiad cau ar 10ed Medi.</p>	<p>8. Vacancy for Clerk: It is a matter of concern that very little interest has been shown and no applications have been received, despite extending the closing date on a number of occasions. It was agreed to further advertise in Y Garthen, Clonc and Y Gambo, with a revised closing date of 10th September.</p>
<p>9. Taliadau a Lwfansau Cynghorwyr: Darparodd y Cadeirydd fanylion am benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2024-2025 i'w hystyried gan y Cyngor: Taliadau Gorfodol: Cost Gofal neu Gymorth Personol – rhaid i'r Cyngor ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol gofalu am blant ac oedolion dibynol (a ddarperir gan ofalwyr</p>	<p>9. Councillors' Payments and Allowances: The Chairman provided details of the deliberations of the Independent Remuneration Panel for Wales for the year 2024-2025 to be considered by the Council: Mandatory Payments: Cost of Care or Personal Assistance – the Council <u>must</u> provide for the reimbursement of necessary costs for the care of dependent children and adults (provided by</p>

anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol.

Byddai hyn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd.

Costau a Threuliau – (a) Gweithio o Adref – rhaid i'r Cyngor sicrhau bod taliad o £156.00 y flwyddyn ar gael i bob un o'i aelodau tuag at gostau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio gartref.

Cytunwyd byddai hwn yn cael ei dalu ym Mis Tachwedd bob blwyddyn heblaw bod aelod yn cadarnhau (yn ysgrifenedig) i'r Clerc nad ydyw'n dymuno hawlio cyfan, neu ran o'r lwfans.

Costau a Threuliau – (b) Taliad Penodol am Nwyddau Traul – rhaid i'r Cyngor naill ai dalu £52.00 y flwyddyn i'w aelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall, rhaid galluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul. Cytunwyd byddai hwn yn cael ei dalu ym Mis Tachwedd bob blwyddyn heblaw bod aelod yn cadarnhau (yn ysgrifenedig) i'r Clerc nad ydyw'n dymuno hawlio cyfan, neu ran o'r lwfans.

Taliadau Opsiynol:

Taliad Cyfrifoldeb ar gyfer Uwch Rolau - gall y Cyngor ddarparu taliad blynyddol o £500.00 yr un i uchafswm o dri aelod fel cydnabyddiaeth o'u cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliadau o £156.00 a £52.00 ar gyfer costau a threuliau.

Cytunwyd i beidio darparu'r lwfans hwn.

Teithio – gall y Cyngor wneud taliadau am gostau teithio i bob un o'i aelodau am fynychu dyletswyddau a gymeradwyir gan y Cyngor.

Nodwyd a chytunwyd i hyn ac ad-delir yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc.

Aros Dros Nos – gall y Cyngor, os ydyw dyletswydd yn gofyn am aros dros nos, awdurdodi ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau ar y cyfraddau uchaf, fel maent wedi eu cyhoeddi.

Nodwyd a chytunwyd i hyn ac ad-delir yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc.

Iawndal am Golled Ariannol – gall y Cyngor dalu iawndal ariannol i bob un o'i aelodau, lle bu colled o'r fath, am fynychu dyletswyddau a gymeradwyir gan y Cyngor fel sydd wedi eu cyhoeddi.

informal or formal carers) and for personal assistance needs. This would be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk. Noted.

Costs and Expenses – (a) Working From Home - the Council must make available a payment to each of its members of £156.00 per year towards the extra household expenses (including heating, lighting, power and broadband) of working from home.

It was agreed that this will be paid in November of each year unless a member confirms (in writing) to the Clerk they do not wish to claim all, or part of the allowance.

Costs and Expenses – (b) Set Payment for Office Consumables - the Council must either make available a payment of £52.00 per year to its members for the cost of office consumables required to carry out their role, or alternatively the Council must enable members to claim full reimbursement for the cost of their office consumables.

It was agreed that this will be paid in November of each year unless a member confirms (in writing) to the Clerk they do not wish to claim all, or part of the allowance.

Optional Payments:

Responsibility Payment for Senior Roles – the Council may make available an annual payment of £500.00 each up to a maximum number of three members in recognition of specific responsibilities. This is in addition to the £156.00 and £52.00 payments for costs and expenses.

It was agreed not to take forward this payment.

Travel – the Council can make payments to each of their members in respect of travel costs for attending Council approved duties.

This was noted and approved and will be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk.

Overnight Stays – the Council, if a duty requires an overnight stay, may authorise reimbursement of subsistence expenses to its members at the maximum rates as published.

This was noted and approved and will be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk.

Compensation for Financial Loss – the Council can pay financial loss compensation to each of its members, where such loss has occurred, for attending approved duties as published.

<p>Nodwyd a chytunwyd i hyn ac ad-delir yn y cyfarfod wedi i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc.</p> <p>Lwfans Presenoldeb – gall y Cyngor dalu lwfans presenoldeb i'w aelodau. Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys ydy £30.00 ac ni all aelod sy'n derbyn iawndal colled ariannol hawlio lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.</p> <p>Os bydd y Cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau presenoldeb, yna bydd rhaid llunio cynllun i'w fabwysiadu'n ffurfiol a gwneud darpariaeth iddo fod ar gael i'r cyhoedd.</p> <p>Rhaid i daliadau am bresenoldeb fod mewn perthynas â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor neu fel arall drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.</p> <p>Bydd gan pob aelod o'r Cyngor hawl i'r taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn taliad drwy hysbysu'r Clerc (yn ysgrifenedig).</p> <p>Cytunwyd i bideo darparu'r lwfans hwn.</p> <p>Pennaeth Dinesig – gall y Cyngor ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i'r Cadeirydd hyd at uchafswm o £1500.00. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156.00 a £52.00 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500.00 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw.</p> <p>Cytunwyd i beidio darparu'r lwfans hwn.</p> <p>Dirprwy Bennaeth Dinesig - gall y Cyngor ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i'r Is-Gadeirydd hyd at uchafswm o £500.00. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156.00 a £52.00 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500.00 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw.</p> <p>Cytunwyd i beidio darparu'r lwfans hwn.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd gyda'r penderfyniadau uchod fel sydd wedi ei nodi.</p> <p>Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan V. Davies, gyda phawb yn bresennol yn gytun.</p> <p>Gofynnodd y Clerc i'r aelodau ddarparu eu manylion bancio er mwyn ei galluogi i drosgwlyddo'r taliadau ym mis Tachwedd.</p>	<p>This was noted and approved and will be reimbursed at the meeting following a claim being submitted to the Clerk.</p> <p>Attendance Allowance – the Council can pay an attendance allowance for its members. The mandatory maximum for each qualifying event is £30.00 and a member in receipt of financial loss compensation will not be entitled to claim attendance allowance for the same event.</p> <p>If the Council decides in favour of attendance allowances, it must produce a scheme for formal adoption and make provision for it to be publicly available.</p> <p>Payments for attendance must be in respect of official business or approved duty which are identified in the Council's Standing Orders or alternatively by specific resolution. The scheme should specify for which events payments will be made.</p> <p>All members of the Council will be entitled to the payment for attendance at the events specified in the scheme, but an individual member may decline to receive payment by informing the Clerk (in writing).</p> <p>It was agreed not to take forward this allowance.</p> <p>Civic Head – the Council can provide a Civic Head payment to the Chairman up to a maximum of £1500.00 This is in addition to the £156.00 and £52.00 payments for costs and expenses and the £500.00 senior salary if these are claimed by that member.</p> <p>It was agreed not to take forward this allowance.</p> <p>Deputy Civic Head – the Council can provide a Deputy Civic Head payment to the Vice-Chairman up to a maximum of £500.00 This is in addition to the £156.00 and £52.00 payments for costs and expenses and the £500.00 senior salary if these are claimed by that member.</p> <p>It was agreed not to take forward this allowance.</p> <p>Following discussion, the above decisions were agreed upon as noted.</p> <p>Proposed by A. Davies, seconded by V. Davies, with all members present in agreement.</p> <p>The Clerc requested Councillors provide their banking details to enable payments to be made in November.</p>
<p>10. Archwiliad 2024-25: Anfonwyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024 – 2025, ynghyd â'r ddogfennaeth y gofynwyd amdano, i Archwilio Cymru ar 04.07.2025 drwy e-bost. Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau derbyn yr holl ddogfennaeth.</p>	<p>10. Audit 2024-2025 – The Annual Return for 2024- 2025, together with requested documentation, was sent via e-mail to Audit Wales on 04.07.2025. A return e-mail confirming receipt has been received.</p>

<p>11. Dogfennaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Adroddiad Blynyddol 2024-2025 (ii) Cynllun Bioamrywiaeth (iii) Rheoliadau Ariannol Diwygiedig 2025 (iv) Nodiadau Datblygu Ymarfer Diwygiedig 2025 – Amserlen Camau Cyn-Etholiad; Amserlen Camau Adroddiad Blynyddol; Amserlen Camau Cyfarfodydd Aml-Leoliad; Ysgrifennu Adroddiadau; Amserlen Camau Blynyddol Lwfansau Aelodau. <p>Derbyniwyd dogfennau (i), (ii) a (iv) uchod – cynigiwyd gan A. James, eiliwyd gan A. Davies.</p> <p>Roedd dogfen (iii) eisoes wedi ei derbyn ar 19.05.2025. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Cyngor at nifer o bwntiau, gan gynnwys yn benodol y canlynol: 2.6, 2.7, 7.10, 7.13, 11.6, 12.3, 17.1 & 17.4.</p>	<p>11. Documentation:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Annual Report 2024-2025 (ii) Biodiversity Plan (iii) Revised Financial Regulations 2025 (iv) Revised Practice Development Notes 2025 – Pre-Election Period Timetable of Actions; Annual Report Timetable of Actions; Multi-Location Meetings Timetable of Actions; Writing Reports; Members' Allowances Timetable of Actions. <p>Documents (i), (ii) and (iv) above were accepted – proposed by A. James, seconded by A. Davies.</p> <p>Document (iii) had previously been accepted on 19.05.2025. The Chairman drew the Council's attention to its contents, in particular the following: 2.6, 2.7, 7.10, 7.13, 11.6, 12.3, 17.1 & 17.4.</p>
<p>12. Cyfeiriadau Gwefan ac e-bost y Cyngor - gweler 'Materion yn Codi' - 5(vii) uchod.</p>	<p>12. Council's Website and e-mail addresses - see 'Matters Arising – 5(vii) above.</p>
<p>13. Gohebiaeth (wedi ei e-bostio i'r Cynghorwyr):</p> <p>(i) Un Llais Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Cyfarfodydd Aml-Leoliad (b) Bwletinau Newyddion (c) Cyfarfod Un Llais Cymru i drafod eu Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethiant - angen cynrychiolydd i fynychu - cynigiodd A. Davies enw M. Griffiths (Cadeirydd), ac eiliwyd gan A. James. <p>(ii) Cyngor Sir Gâr:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cymorth i ddeall teithio llesol yng Nghymru wledig. (b) Llwybrau: dargyfeiriwyd llwybr troed Bryngwynau i Caeaugwynion. (c) Mae'r dispensation wedi ei dderbyn pan fydd y Cyngor yn ymwneud a Cynllun Trydan Greengen. <p>(iii) Eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Trydan Gwyrdd Cymru (b) Trafnidiaeth Bws Dolen Teifi. (c) Llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth M. Foulkes sy'n trefnu taith gerdded, ac wedi cael anhawster gyda'r llwybr o Brynceirch i Gwmdu. Bydd y Clerc yn anfon y llythyr ymlaen at Jason Lawday (Cyngor Sir Gâr). 	<p>13. Correspondence (e-mailed to Councillors):</p> <p>(i) One Voice Wales:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Multi-Location Meetings (b) News Bulletins (c) One Voice Wales Meeting to discuss their Constitution and Governance Framework - a representative required to attend - A. Davies proposed M. Griffiths (Chairman) and A. James seconded. <p>(ii) Carmarthenshire County Council:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) assistance to understand active travel in rural Wales. (b) Footpaths: diversion of footpath Bryngwynau to Caeaugwynion has been completed. (c) Dispensation re: GreenGen Electricity Scheme has been successful. <p>(iii) Other:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Green Energy Wales (b) Dolen Teifi Bus Transport. (c) Request from M. Foulkes who is arranging a walk and has met with problems with the path from Brynceirch to Cwmdu. The letter will be forwarded to Jason Lawday (Carmarthenshire County Council).
<p>14. Ceisiadau am Gymorth Ariannol: derbyniwyd ceisiadau oddi wrth y canlynol y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Eisteddfod y Garreg Las 2026: cynigiodd A. Davies £250.00, eiliodd V. Davies a chytunodd pawb. (b) Eisteddfod Llanfihangel ar arth a'r Plwyf. Cynigiodd D. Davies £200.00, eiliodd D. Griffiths a chytunodd pawb. 	<p>14. Appeals for Donations: requests were received from the following:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Eisteddfod y Garreg Las 2026: A. Davies proposed a donation of £250.00, V. Davies seconded and all agreed. (b) Llanfihangel-ar-arth Eisteddfod: D. Davies proposed £200.00, D. Griffiths seconded and all agreed.
<p>15. Unrhyw Fater Arall: (gwybodaeth oddi wrth y Cynghorwyr a'r Clerc yn unig):</p> <p>V. Davies: angen glanhau palmentydd Pontweli ar frys.</p>	<p>15. Any Other Business (information from Councillors and Clerk only):</p> <p>V. Davies: pavements at Pontwelly need cleaning urgently.</p>

<p>A. Davies: manhole ar yr heol rhwng adeilad Telecom a Ffatri Glantweli angen sylw; yr heol tuag at Glantweli Fach yn gul – angen sylw y Cyngor Sir gan fod peiriannau mawr yn gorfod mynd drwy gaeau oherwydd bod angen ei glirio; palmentydd mewn cyflwr gwael gyferbyn â Marshlands, Pencader.</p> <p>Cynghorydd Sir L. Evans: bydd Openreach yn gweithio ar y ffordd o Bencader i Gwyddgrug yn fuan a bydd yr heol ar gau.</p> <p>Clerc: deiliaid ystâd Troedyrallt, Alltwalis wedi gwneud cais am fin mawr i ddal y bagiau sbwriel er mwyn atal sbwriel i chwythu allan i'r ffordd fawr - dywedodd y Cynghorydd Sir L. Evans y byddai'n gwneud cais i'r Cyngor Sir ar eu rhan; gor-dyfiant coed ar Sgwâr Llanfihangel-ar-arth yn mynd dros y bwrdd hanes, y gysgodfan bws a'r sedd; Clerc wedi atgoffa W. Hock (Cyngor Sir Gâr) i ddod i arolygu'r Cornel Chwaraey m Mhencader.</p>	<p>A. Davies: manhole on road between Glantwelly Factory and the Telecom Depot requires attention; the road towards Glantwelly Fach needs the attention of the County Council. it is very narrow and needs to be cleared; pavements opposite Marshlands Pencader in a poor condition.</p> <p>County Councillor L. Evans: Openreach will soon be working on the road from Pencader to Gwyddgrug and will be closed during this period.</p> <p>Clerc: Residents of Troedyrhiw, Alltwalis have requested a large cage like bin to hold their rubbish bags in order to avoid bags being blown out to the road. County Councillor L. Evans will make a request to the County Council. Overhanging branches growing over the bench, history display board and the bus stop at the crossroads in Llanfihangel-ar-arth; Clerc has reminded W. Hock (Carmarthenshire County Council) of the need to inspect the Play Corner at Pencader.</p>
<p>15. Dyddiad y Cyfarfod Misol Nesaf: Nos Lun, 15ed Medi 2025 am 7.30 y.h.</p>	<p>15. Date of Next Monthly Meeting: Monday, 15th September 2025 at 7.30 p.m.</p>

Gorffennwyd y Cyfarfod 9.40 y.h. / Meeting ended 9.40 p.m.